Busnes Cymru | Business Wales

ANFONWYD O FUSNES CYMRU

EBRILL 2026

**Esbonio'r Drefn Rheoli Cymorthdaliadau**

Rhag ystumio'r gystadleuaeth yn y DU, mae trefn rheoli cymorthdaliadau'r DU yn rheoli'r ffordd y gellir rhoi cymorth i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol.

Gweler isod fanylion y cymhorthdal a gynigir ar ffurf cymorth cynghori gan Busnes Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027. Rydym yn rhoi'r wybodaeth hon i chi am eich bod am gael cymorth gan Busnes Cymru; gallai fod yn berthnasol i chi, neu i aelod o'ch sefydliad sydd am fynd i weithdy neu sydd am gael cymorth un i un gan un o dimau ein Gwasanaeth Cynghori.

Mae gofyn i ni roi cynnig i chi sy'n nodi gwerth y cymorth cynghori sy'n cyfateb i swm y cymhorthdal yr ydych wedi'ch cymeradwyo i'w gael gennym ni.

***SYLWER – Nid anfoneb mo hon na Chynnig Grant.***

Mae'r cymorth cynghori y bydd Llywodraeth Cymru'n ei roi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i chi wedi'i ddyfarnu i chi yn unol â Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022 gyda chyfeirnod y cynllun: SC11028. Ceir manylion llawn y Cynllun yma: Cynllun Rheoli Cymhorthdal Busnes Cymru

Gwerth y cymorth cynghori, sy'n cyfateb i swm y cymhorthdal a gynigir, yw hyd at **£6,500.**

**Pwysig: mae'r swm hwn yn cyfateb i gost y cymorth cynghori yr ydych yn gymwys i'w dderbyn. Fel arfer, ni fyddwch yn cyrraedd y trothwy hwn. Rhag unrhyw amheuaeth, ni fydd y ffigur hwn yn cael ei roi i chi ar ffurf arian.** Daw'r cynnig hwn i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027. Gyda'n cytundeb, gellir cynnig rhagor o gymhorthdal os bydd dal angen cymorth cynghori arnoch yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn.

At ddibenion trefn rheoli cymorthdaliadau'r DU, rhaid ichi gadw'r llythyr hwn am 10 mlynedd o'r dyddiad uchod a'i ddangos pan fydd awdurdod cyhoeddus yn y DU yn gofyn ichi wneud. Mae rhagor o wybodaeth am drefn rheoli cymorthdaliadau'r DU yn fwy cyffredinol ar gael yn: Trefn rheoli cymhorthdal y DU - GOV.UK (www.gov.uk).

Yn gywir

**Carys A Roberts**

**Pennaeth Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru**

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government